**<u>Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru</u>**
**Microsoft Teams**
**Dydd Iau 17 Gorffennaf 2025 10:00-12:00**

## <u>Cofnodion</u>

### <u>Yn bresennol</u>

| | |
|---|---|
| Jane Hutt AS | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (Cadeirydd) |
| Ifan Charles | Prif Gwnstabl Dros Dro Heddlu Dyfed Powys |
| Amanda Blakeman | Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| Jeremy Vaughan | Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru |
| Nicola Brain | Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Heddlu Gwent |
| Dafydd Llywelyn | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Jane Mudd | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Emma Wools | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Eleri Thomas | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |
| Wayne Jones | Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Mike Connolly | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru |
| Matt Downton | Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau sy'n Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru |
| Sioned Lewis | Pennaeth Cefnogi Mynediad i Addysg, Llywodraeth Cymru |
| Sasha Yilmaz | Pennaeth Trosedd a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Claire Russell-Griffiths | Uwch-reolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Leanne Lewis | Rheolwr, y Tîm Troseddu a Chyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| James Gerard | Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Cyfiawnder, Llywodraeth Cymru |
| Kathryn Jenkins | Prif Swyddog Diogelwch, Llywodraeth Cymru |
| Natalie Blakeborough | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Ian Barrow | Cyfarwyddwr Gweithredol Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Adam Gardner | Tîm Cymru a Lloegr, Tiriogaethau Domestig a Thramor y DU, y Swyddfa Gartref |
| Gregg Dyer | Pennaeth Materion Domestig, Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru |
| Naomi Alleyne | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol (Polisi), CLILC |
| Mark Brace | Pennaeth y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLILC |
| Carys Morgans | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys |
| Lee Jones | Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Stephen Hughes | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| David Holloway-Young | Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu De Cymru |
| Harri Evans-Mason | Rheolwr Rhaglen, Cydweithredu Heddluoedd Cymru |
| Gareth Morgan | Prif Arolygydd, Pennaeth GanBwyll, Heddlu De Cymru |
| Paul Morris | Pennaeth Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Sarah Keefe | Rheolwr Polisi Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru, Plismona yng Nghymru |
| Joanna Huddleston | Gweinyddydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |

<u>Ymddiheuriadau</u>

| | |
|---|---|
| Joanne Hopkins | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Andy Dunbobbin | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Judith Paget | cyfarwyddwr Cyffredinol HSSG, Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru |
| Dave Guiney | Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro, Cydweithredu Heddluoedd Cymru |
| Amy Rees | Prif Weithredwr, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi |
| Helen Hill | Rheolwr Busnes a Datblygu Rhwydweithiau, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel, CLILC |
| Paul Biggs | Prif Arolygydd, Uned Gyswllt yr Heddlu |
| Tracy Cooper | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Jenny Hopkins | Prif Erlynydd y Goron, Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| Sian Curley | Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent |

| Camau gweithredu yn codi o'r cyfarfod | |
|---|---|
| Paul Morris a Swyddogion Llywodraeth Cymru i gysylltu mewn perthynas ag effeithiau diwygio a deddfwriaeth ar Gymru ac i ddatblygu papur i sicrhau bod llais Cymru yn gryf ac yn glir ar gyfer cyfarfod y Bwrdd hwn lle bydd y Gweinidog Plismona yn bresennol. | Paul Morris/Swyddogion Llywodraeth Cymru |
| Prif Gwnstabl Blakeman a Paul Morris i adolygu Argymhellion Adolygiad y Farwnes Casey i sicrhau y tynnir sylw at y rhai sy'n eistedd mewn meysydd y tu allan i'r maes plismona fel Llywodraeth Cymru. | Paul Morris/Prif Gwnstabl Blakeman |
| Dwyn Tensiynau Cymunedol a Materion Diogelwch yn ôl i'r bwrdd. | Uned Gyswllt yr Heddlu |

**1. Gair o Groeso ac Anerchiad gan y Cadeirydd**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd nad oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru nac Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru yn gallu ymuno ond nododd fod Gregg Dyer o Swyddfa Cymru yn bresennol.

**2. Diwygio'r Dirwedd Plismona, yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'r Bil Troseddu a Phlismona: Cynnydd a Myfyrdodau**

Esboniodd y Comisiynydd Wools nad oedd llawer o wybodaeth i'w diweddaru mewn perthynas â Diwygio'r Dirwedd Plismona. Cafodd y broses o gyhoeddi'r papur gwyn ei gohirio tan yr Hydref 2025 a disgwylir cyfnod ymgynghori o wyth wythnos, sydd i'w groesawu.

Mae hi o'r farn bod yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant wedi arwain at yr angen i Swyddogion ailasesu uchelgais a chwmpas y diwygio. Mae'n amlwg mai cynlluniau Llywodraeth y DU yw parhau gyda ffocws ar y Ganolfan Blismona Genedlaethol gyda'r prif nod o sicrhau bod Tirwedd Diwygio'r Heddlu yn canolbwyntio ar fuddsoddi i arbed mewn perthynas ag effeithlonrwydd a chynhyrchiant, ond rydym yn aros am fanylion o hyd.

Ychwanegodd y Comisiynydd Wools ei bod hi'n awyddus, o safbwynt Cymru, i sicrhau y cymerir pob cyfle i ffurfio'r cynigion diwygio. Mae adnoddau ymroddedig wedi'u secondio drwy'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Jenny Gilmer a Claire Bryant o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys. Esboniodd ers cyfarfod diwethaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru, bod nifer o weithdai a sesiynau wedi'u cynnal. Nododd fod trafodaethau cenedlaethol yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddatganoli yn Lloegr sy'n berthnasol o ran symud rolau a phwerau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i fodelau mwy maerol mewn rhai rhannau o Loegr yn y dyfodol, felly mae Comisiynwyr Cymru yn ymwybodol iawn o beth mae hynny'n ei olygu i fodel traddodiadol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a fydd yn parhau yng Nghymru.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi wedi trafod hyn yn ystod ei chyfarfodydd â'r Comisiynydd Llywelyn fel y Cadeirydd Plismona yng Nghymru cyfredol. Roedd hi'n bryderus o glywed bod ymdeimlad o ansicrwydd yn parhau, felly ysgrifennodd at y Gweinidog Plismona ym mis Mai i fynegi'r pryderon hyn a cheisio sicrwydd fod cyd-destun Cymru yn cael ei nodi. Cafodd ymateb yn rhoi gwybod bod presenoldeb Cymreig cryf yn y tîm diwygio heddlu ar y cyd gydag uwch-gynrychiolwyr o Heddlu De Cymru a Heddlu Gogledd Cymru, yn ogystal â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys, a chafodd sicrwydd fod gwaith yn parhau i sicrhau ymgysylltiad parhaus. Yn ogystal, mae Grŵp Cyfeirio Cymru wedi'i sefydlu er mwyn cynnig cyfle i gydweithredu er mwyn asesu effaith diwygio'r heddlu.

Nododd y Cadeirydd ystod o feysydd a darpariaethau yn y Bil Troseddu a Phlismona felly mae Tîm Cyfreithiol Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â dadansoddiad llawn o'r bil ac wedi cadarnhau bod y mwyafrif yn gysylltiedig â materion a gedwir yn ôl, ac eithrio rhai meysydd yn ymwneud â materion fel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sydd wedi ymgysylltu â'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM).

Cafodd LCM ei osod yn y Senedd ar 28 Mawrth gydag LCM atodol hefyd wedi'i osod ar 2 Gorffennaf yn dilyn diwygiadau pellach. Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y DU wrth i'r bil fynd rhagddo.

**2.1.** Teimlai'r Prif Gwnstabl Vaughan y gall y papur gwyn gael ei ohirio oherwydd nid oedd setliad yr Adolygiad Cynhwysfawr ar Wariant yn unol â'r disgwyl, felly ceir anghydbwysedd rhwng yr awydd i ddiwygio ar draws y system a'r gallu i'w ariannu. Yn ogystal â phwysau heb eu hariannu ar y tâl sy'n weddill, nid yw'n sicr beth fydd y setliad tâl ar gyfer plismona ar hyn o bryd. Nododd fod angen i'r maes Plismona yng Nghymru gadw i graffu, lle teimlant y gall Cymru fod o dan anfantais o ganlyniad i'r newidiadau yn Lloegr, yn enwedig mewn perthynas â'r Model Maerol. Pwysleisiodd yr angen i edrych ar yr hyn na ellir ei ddarparu yng Nghymru o ganlyniad i hynny.

**2.2.** Teimlai'r Prif Gwnstabl Blakeman fod angen safiad cryfach yng Nghymru o ran yr hyn y mae'r maes plismona am ei roi gerbron yn hytrach nag aros i'r papur gwyn gael ei gyflwyno ac yna ymateb i agweddau na fyddent yn gweithio yma.

**2.3.** Cytunodd y Comisiynydd Llywelyn â'r farn bod yr uchelgais fel petai wedi'i lleihau gan y setliad ariannu, gan ychwanegu mai awgrym arall yn y setliad yw y caiff ei seilio ar lefel braesept benodol. O ran datblygu Dyfodol Ieuenctid ledled Cymru, cafwyd cyfarfod cadarnhaol yn ddiweddar ond oherwydd natur lled-ddatganoledig gweithgarwch cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, mae'n teimlo y gall fod yn fuddiol edrych ar beth ellir ei ddatblygu wrth arsylwi'r gwaith sy'n digwydd gyda threialon yn Lloegr.

Mynegodd y Comisiynydd Llywelyn bryderon mewn perthynas â chymhlethdodau'r model Maerol wrth iddo ddatblygu, megis beth sydd wedi'i ddatganoli a beth sydd heb ei ddatganoli, yn ogystal â'r ffaith bod y cyllid nad yw'n cael ei roi yng Nghymru yn debygol o fod yn fwy lle mae Cymru eisoes yn cael trafferth o rai o'r cymhlethdodau sydd eisoes yn bodoli fel yr Ardoll Brentisiaethau.

**2.4.** Rhoddodd Adam Gardner sicrwydd fod Gweinidogion y Swyddfa Gartref yn ymrwymo i sicrhau bod safbwyntiau Plismona yng Nghymru yn cael eu gwrando arnynt ac y caiff y cyd-destun Cymreig ei ystyried yn llawn. Ategodd y Comisiynydd Wools y pwynt fod gan y Tîm Diwygio Heddlu ar y Cyd yn y Swyddfa Gartref ddau aelod o Gymru, sy'n ffactor cadarnhaol yn ei farn ef. O ran Papur Gwyn Diwygio'r Heddlu, dywedodd mai'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth y DU yw cyhoeddi'r Papur Gwyn erbyn diwedd y flwyddyn. Nododd eu bod wedi gobeithio ei gyhoeddi cyn diwedd Toriad yr Haf ond fel yr awgrymwyd, yn sgil canlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, teimlant fod angen mwy o amser i edrych ar fforddiadwyedd yng nghyd-destun y dyraniadau adrannol.

**2.5.** Nododd Dave Holloway-Young fod y Prif Swyddogion Cyllid wedi bod yn gwneud gwaith cyfrifo ers i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gael ei gyhoeddi a'i fod wedi bod yn ceisio cyfrifo'r goblygiadau i'r heddluoedd. Ychwanegodd er nad oes llawer o fanylion ar gael ar hyn o bryd, mae'n sefyllfa heriol iawn oherwydd hyd yn oed gyda phraesept o 5% ledled Cymru bob blwyddyn, erbyn 2028/29, mae'n debygol y bydd bwlch o ryw £50m yn y gyllideb, nad yw'n ystyried unrhyw anghenion cyllid ychwanegol posibl fel unrhyw garfan ychwanegol o swyddogion y bydd eu hangen i fodloni'r Warant Plismona yn y Gymdogaeth.

**2.6.** Mae'r Prif Gwnstabl Blakeman yn teimlo bod angen safiad ar y cyd mewn perthynas â datganoli Plismona yng Nghymru gan ei fod er budd y cyhoedd.

**2.7.** Nododd y Comisiynydd fod yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol newydd gael ei gyhoeddi sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar blismona ac ni chaiff ei ystyried fel rhan o Setliadau'r Swyddfa Gartref na Phlismona. Roedd am bwysleisio pwysigrwydd ystyried yr effaith, yn ariannol ac yn strwythurol gan fod hyn yn hanfodol bwysig. Esboniodd i hyn gael ei drafod yng nghyfarfod diweddaraf Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru lle cytunwyd bod angen asesiad o effaith, y mae'n credu y bydd yn cysylltu â safbwyntiau pobl eraill, felly mae angen nawr i gryfhau safiad Cymru ar nifer o faterion gwahanol.

**2.8.** Cytunodd y Cadeirydd, gan nodi ei bod hi'n teimlo bod Llywodraeth Cymru bellach mewn sefyllfa lle mae angen safbwynt cyfannol cynhwysfawr ar Gymru. Mae angen gweithio ar hyn cyn cyfarfod nesaf Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru y mae'n gobeithio y bydd y Gweinidog Plismona yn bresennol yno.

**2.9.** Adleisiodd James Gerard sylwadau'r Cadeirydd, gan ychwanegu y byddai Llywodraeth Cymru yn awyddus i fod yn rhan o'r safbwynt ar y cyd a gyflwynir i'r Swyddfa Gartref er mwyn i Gymru allu siarad fel un.

**Cam Gweithredu: Paul Morris a Swyddogion Llywodraeth Cymru i gysylltu mewn perthynas ag effeithiau diwygio a deddfwriaeth ar Gymru ac i ddatblygu papur i sicrhau bod llais Cymru yn gryf ac yn glir ar gyfer cyfarfod y Bwrdd hwn lle bydd y Gweinidog Plismona yn bresennol.**

### 3. Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Seiliedig ar Grŵp: Archwiliadau ac Adolygiadau o Achosion y Farwnes Louise Casey

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan nodi bod Llywodraeth Cymru yn croesawu penderfyniad y Prif Weinidog i gynnal ymchwiliad llawn i gangiau sy'n meithrin cydberthnasau amhriodol yng Nghymru a Lloegr. Cytunwyd yn y Senedd yn flaenorol i ddadansoddi canfyddiadau Adolygiad y Farwnes Casey a beth fyddai hynny'n ei olygu i Gymru. Soniodd hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Strategaeth 10 mlynedd Genedlaethol ar gyfer Atal ac Ymateb i Achosion o Gam-drin Plant yn rhywiol sy'n destun ymgynghoriad. Bydd Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Goroeswyr ar gael, ac mae Llywodraeth Cymru am sicrhau yr ymgysylltir â'r unigolion hyn, eu bod yn awyddus i edrych ar brofiadau o ran sut gall Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ddiogelu a chefnogi plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr ac yn oroeswyr yng Nghymru.

**3.1.** Ymatebodd y Comisiynydd Llywelyn fod undod ymhlith pob Comisiynydd a Phrif Gwnstabl o ran eu hymrwymiad i'r ymdrech hon. Roedd heddluoedd yng Nghymru yn gwneud gwaith yn dilyn Adolygiad y Farwnes Casey, er bod yr argymhellion hefyd yn cyfeirio at gydlynu gweithgareddau, bydd gofyniad o hyd i heddluoedd gael arweinwyr lleol ac o ganlyniad, mae'n teimlo bod cyfrifoldeb ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i sicrhau bod heddluoedd yn cael eu llywodraethu'n ddigonol a'u bod yn goruchwylio gweithgareddau yn lleol. Ategodd y pwyntiau a wnaed i Brif Weinidog Cymru, gan esbonio bod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn eithaf clir na ellir cymryd yn ganiataol nad yw'r mathau hyn o droseddau wedi digwydd neu nid ydynt yn digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd; nododd mai nod Plismona yng Nghymru yn y pen draw yw chwilio am unrhyw ddigwyddiadau a all fod wedi digwydd ac y mae angen ail-ymchwilio iddynt, yn ogystal â gwrando ar ddioddefwyr i wella gwasanaethau i'r dyfodol.

**3.2.** Pwysleisiodd y Prif Gwnstabl Blakeman fod yr holl heddluoedd wedi cyflwyno datganiadau i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a bod unrhyw ddigwyddiadau syn cwympo o fewn paramedrau'r adolygiad wedi'u hanfon i mewn. Nid oes ganddi unrhyw bryderon penodol am y gogledd ar hyn o bryd, gan bwysleisio nad yw hi am siarad ar ran pob heddlu ond mae pob un ohonynt, yn ei barn hi, wedi mynd trwy argymhellion yr adolygiad i sicrhau eu bod yn eu canfod cyn gynted â phosibl.

Ar y cyd â Paul Morris, cydnabu y byddai'n cadarnhau'r meysydd yn Adolygiad y Farwnes Casey nad ydynt ar gyfer y maes plismona yn benodol ond sy'n perthyn i feysydd eraill fel yr Adran Addysg, gan eu bod yn awyddus i sicrhau bod ardaloedd datganoledig yn cael eu nodi a sicrhau y tynnir sylw at feysydd eraill sy'n cwympo o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru hefyd.

**Cam Gweithredu: Y Prif Gwnstabl Blakeman a Paul Morris i adolygu Argymhellion Adolygiad y Farwnes Casey i sicrhau y tynnir sylw at y rhai sy'n perthyn i feysydd y tu allan i blismona fel Llywodraeth Cymru.**

**3.3.** Cytunodd y Cadeirydd, gan nodi ei bod yn hanfodol mai cyfrifoldeb traws Lywodraeth Cymru yw hwn, gan nodi y caiff y strategaeth genedlaethol ei harwain gan Dawn Bowden AS fel y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol. Pwysleisiodd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar hyn fel tîm dan arweiniad Prif Weinidog Cymru.

**3.4.** Dywedodd Paul Morris iddo gael ei gomisiynu gan y Prif Gwnstabliaid i ddwyn ynghyd y gwaith sy'n cael ei wneud yn lleol, ar sail Cymru gyfan, gan gynnwys yr holl gyflwyniadau sydd wedi'u gwneud i Dasglu NCA CSE. Bydd hwn yn cael ei adolygu yng nghyd-destun argymhellion Adolygiad y Farwnes Casey, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn benodol ar gyfer plismona a byddant yn cael eu hadrodd yn ôl i gyfarfod nesaf Grŵp Prif Swyddogion Cymru.

**3.5.** Darparodd Adam Gardner ddiweddariad ar yr Ymholiad Cenedlaethol; mae'r Cylch Gwaith yn cael ei ddrafftio ac mae proses ffurfiol ar waith yn ymwneud ag ymgynghori sy'n cynnwys ymgynghori â llywodraethau datganoledig felly bydd y Cylch Gwaith drafft yn cael ei rannu cyn gynted â phosibl.

## 4. Tensiynau Cymunedol a Materion Diogelwch cyn Etholiad y Senedd 2026

Esboniodd y Cadeirydd fod yr eitem hon yn cysylltu â Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru, sydd â nifer o amcanion allweddol, un ohonynt yw monitro tensiynau cymunedol a gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys plismona, i'w lliniaru. Nododd y bu rhai digwyddiadau difrifol drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf lle ymosodwyd ar aelodau o'r Senedd a mynegodd ei bod yn ddiolchgar i Heddlu De Cymru am yr ymateb i un digwyddiad penodol.

Ychwanegodd ei bod hi'n ddiolchgar bod y Prif Gwnstabl Vaughan wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol ar 1 Gorffennaf, gan gynnig cymorth i wella'r trefniadau sy'n bodoli. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU wrth iddi ddatblygu cynlluniau deddfwriaethol i wrthwynebu aflonyddwch a bygythiad ond gan na fydd y rhain yn dod i rym tan ar ôl etholiadau'r Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cynlluniau ymgysylltu at ei gilydd a byddant yn croesawu cymorth yr heddlu.

**4.1.** Nododd y Prif Gwnstabl Vaughan i'r Cadeirydd ddisgrifio'r mater yn dda ond ychwanegodd mai prif bryder plismona yw diogelwch cymunedol a chadw pobl mor ddiogel ag y gallant, felly dylai'r llythyr i Swyddogion drafod a yw Cymru yn fodlon ac i wirio a oes strwythurau priodol ar waith. Mae Prif Gwnstabliaid Cymru yn cael trafodaethau ar wahân gyda phartneriaid lleol am drefniadau cydlyniant cymunedol, felly mae angen cadw hyn ar yr agendau er mwyn parhau gyda'r gwaith monitro a'r trafodaethau.

**4.2.** Cytunodd y Cadeirydd y dylid cadw hyn ar yr agenda.
**Cam Gweithredu: Dwyn Tensiynau Cymunedol a Materion Diogelwch yn ôl i'r bwrdd.**

## 5. Plismona a Chydweithrediad Iechyd: Arwain a Rheoli Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru

Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd Wools, y Dirprwy Gomisiynydd Thomas a'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Guiney am eu gwaith yn hyn o beth gan ei fod yn wasanaeth hollbwysig ac mae angen sicrhau bod pawb sydd ynghlwm yn cydweithio yn effeithiol i sicrhau bod trefniadau hirdymor yn dilyn trawsnewid anodd, yn gywir i'r bobl y mae angen y gwasanaethau arnynt.

**5.1.** Disgrifiodd y Comisiynydd Wools y cefndir i'r rhaglen, sef mai'r nod oedd darparu Gwasanaethau Ymosodiad Rhywiol sy'n diwallu anghenion pob dioddefwr a goroeswr, gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r claf, lle mae iechyd a llesiant yw'r flaenoriaeth allweddol a chanolog. Y nod yw sicrhau'r canlyniadau gorau i ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol drwy sicrhau bod agwedd dan arweiniad iechyd, gan gynnwys gwasanaethau cymunedol integredig, a ddatblygwyd yn lleol i sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i unrhyw un yng Nghymru, gan hefyd alluogi llwybr i wasanaethau a chymorth i ddioddefwyr lle nad oes angen i blismona fod ynghlwm.

Ers mis Hydref 2023, mynegodd plismona bryderon fod bwlch mewn llywodraethu a goruchwyliaeth o safbwynt iechyd a oedd yn peri risg i gynnydd y rhaglen a gafodd ei ddatblygu wedyn yng nghyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru ym mis Ebrill 2025. Ers hynny, mae llawer o waith wedi'i wneud, a hynny'n bennaf dan arweiniad cydweithwyr Iechyd, sy'n cynnwys Swyddogion o'r GIG mewn perthynas â datrys y materion sy'n weddill. Esboniodd y Comisiynydd Wools eu bod wedi gallu datrys y bwlch ariannu ar gyfer gwasanaethau cwnsela fel y cafodd ei grybwyll ym mis Ebrill 2025, ond tan y diwrnod blaenorol, nid oedd yn

glir o hyd mewn perthynas â llywodraethu ac arweinyddiaeth, yn ogystal â chwmpas y rhaglen. Cyfarfu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y diwrnod blaenorol, gan nodi ei fod yn gyfarfod adeiladol lle atgyfnerthodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i gyflawni'r bwriadau gwreiddiol o gwmpas Model Rhaglen WSAS. Rhoddodd Swyddogion ymrwymiad i Weinidogion y byddai'r materion sy'n weddill o ran diffinio arweinyddiaeth a llywodraethu yn cael eu datrys erbyn diwedd mis Gorffennaf 2025.

**5.2.** Nododd Matt Downton o ran ymrwymiad mis Gorffennaf 2025, mae'n deall mai ymrwymiad ydoedd erbyn hynny, byddai Swyddogion Llywodraeth Cymru wedi estyn allan at y Byrddau Iechyd trwy broses IQPD er mwyn dod â'r wybodaeth honno yn ôl i blismona. Esboniodd ei fod yn ofyniad iddo fynd trwy'r broses ffurfiol.

**5.3.** Roedd y Comisiynydd am dynnu sylw at ddatblygiad arwyddocaol y cyfleuster pediatrig yn Abertawe sydd wedi agor; mae o'r farn y bydd hwn yn wasanaeth gwych i ddioddefwyr. Fodd bynnag, mae oedi parhaus â gwasanaeth Aberystwyth. Mae o'r farn y byddai pob heddlu yn cydnabod nad yw pobl yn rhoi gwybod digon am droseddau rhywiol ac o ganlyniad i hynny, mae'n teimlo y gellid gwneud gwaith ar y cyd i hyrwyddo cyfleuster Aberystwyth gan y byddai gwasanaeth newydd yn cael ei ddarparu a allai annog pobl i'w ddefnyddio. Ychwanegodd y dylai plismona fod yn hyrwyddo bod y gwasanaeth ar gael, yn enwedig i'r rhai nad ydynt am ddod at yr heddlu, felly bydd yn archwilio hynny yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu Dyfed Powys.

**5.4.** Ymatebodd y Dirprwy Gomisiynydd Thomas i bwynt Matt Downton mewn perthynas â therfyn amser mis Gorffennaf, gan ei bod hi ar ddeall ei fod mewn perthynas â sicrhau'r adnodd ymroddedig gan mai dyma oedd yr ymrwymiad a'r amserlen yr oedd plismona yn ceisio ei ddatblygu felly gofynnodd am eglurhad. Mae'n teimlo ei fod yn siomedig na fu modd iddynt gyflawni'r cynnydd angenrheidiol ac mae'n teimlo bod angen ymrwymo ar y cyd i gyflawni'r cynnydd hwnnw mewn modd amserol.

**5.5.** Cytunodd Matt Downton â'r Dirprwy Gomisiynydd Thomas a chadarnhaodd mai dyna y cytunwyd arno'r diwrnod blaenorol; rhoddodd sicrwydd ei fod yn cyfarfod â'r Cydbwyllgor Comisiynu a pherfformiad a gwelliant y GIG yn syth ar ôl y cyfarfod hwn a nododd y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd.

**5.6.** Cydnabu'r Comisiynydd Wools yr eglurder o gwmpas adnoddau ymroddedig gan y bydd hyn yn galluogi'r dilyniant a'r cyflymder sydd eu hangen i ddatrys y dyluniad llywodraethu a symud y gwaith yn ei flaen. Pwysleisiodd fod angen cyflymder a gafael oherwydd, er y cafwyd bwlch, mae'r rhaglen wedi parhau i orfod cyflawni a cheir rhyngddibyniaethau o ran y penderfyniadau y mae angen eu gwneud ar y cyd, gyda gwybodaeth lawn am ymrwymiad pob parti i'r bartneriaeth.

**5.7.** Dilynodd Harri Evans-Mason ymlaen o ddiweddariad y Comisiynydd Wools, gan nodi bod nifer o gamau gweithredu adferol wedi'u rhoi ar waith ac mae nifer o'r cerrig milltir angenrheidiol y mae angen eu cyflawni wedi golygu y bu'n rhaid i Gomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid gymryd risgiau sylweddol wrth reoli rhai trefniadau interim o safbwynt masnachol felly maent yn awyddus i ddogfennu hynny a sicrhau y gellir cynnal parhad busnes.

**5.8.** Caeth y Cadeirydd i'r casgliad mai'r eitem i'w nodi yw bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r dull cydweithredol a phartneriaeth sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad i'r model prif ganolfan a lloerennau gyda ffocws ar ddatblygu system lywodraethu fwy cadarn.

## 6. Ymddygiad mewn Ysgolion: Camau Gweithredu sy'n Dod i'r Amlwg o'r Ford Gron gyda Phlismona yng Nghymru ac Uwchgynhadledd Ymddygiad

Cyflwynodd y Comisiynydd yr eitem ac esboniodd mewn ymateb i bryderon cynyddol gan gydweithwyr addysg a rhanddeiliaid y sector ehangach, trefnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ddau ddigwyddiad: Y Ford Gron Trais mewn Ysgolion a'r Uwchgynhadledd Ymddygiad. Roedd plismona yn rhan lawn yn y ddwy drafodaeth. Esboniodd fod yr ysgolion yn cael profiad o heriau cymhleth o ran yr ymddygiad y mae pobl ifanc yn ei ddangos, sy'n mynd yn fwy heriol i gydweithwyr addysg a fyddai'n croesau cymorth y sector

ehangach a rhanddeiliaid o ran gallu mynd i'r afael â hynny. Teimlai'r Comisiynydd Wools fod pwysigrwydd y gydberthynas plismona gydag ysgolion yn cael ei hailadrodd yn y ddwy sesiwn gan staff addysg a fynegodd eu gwerthfawrogiad o'r budd y gellir ei weld o gydberthynas plismona ag ysgolion; gwnaethant hefyd fynegi pryderon am newidiadau diweddar i drefniadau yn dilyn cau Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru. Yn dilyn hyn, gosododd Ysgrifennydd Addysg y Cabinet gam gweithredu i gyfarfod â'r adran blismona, dyddiad sydd wedi'i osod ar gyfer 6 Awst 2025. Dywedodd y Comisiynydd Wools er y cafwyd newidiadau i'r trefniant, mae'r heddluoedd wedi ceisio gwarchod yr adnodd.

**6.1.** Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd Wools am y wybodaeth ddiweddaraf, gan nodi ei fod yn gadarnhaol bod fforymau newydd wedi'u sefydlu, yn ogystal â Phecyn Cymorth Ymddygiad y mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2025 a fydd yn cynnig strategaethau ystafell ddosbarth ymarferol a gwybodaeth am ymchwil. Diolchodd i'r adran blismona am eu hymgysylltiad ar y mater hwn.

## 7. Materion i'w Diweddaru/Nodi: GanBwyll

### 7a.) Adolygu'r Wybodaeth Ddiweddaraf am Orfodaeth ar Ffyrdd 20mya

Dywedodd y Prif Gwnstabl Blakeman y bu hwn yn faes anodd ei lywio oherwydd bod cymaint o newidiadau'n digwydd, ac felly mae wedi mynd yn eithaf heriol. Cafwyd trafodaeth yn ystod y cyfarfod WCOG diweddaraf mewn perthynas â gorfodaeth; bu plismona yn glir iawn y byddent yn gorfodi'r marciau a'r arwyddion a nodwyd ar bob ffordd. Mae Awdurdodau Lleol yn cynnal eu hadolygiadau o ffyrdd 20mya, ond cyn gynted ag y caiff yr heddluoedd wybod bod yr Awdurdod Lleol yn bwriadu newid y terfyn cyflymder, bydd y Prif Gwnstabl priodol yn llunio barn ynghylch a ddylid cynnal gwaith gorfodi pellach neu beidio. Ychwanegodd y Prif Gwnstabl Blakeman fod hyn wedi creu safbwyntiau cyhoeddus, yn enwedig yn y gogledd, ac esboniodd yng nghyfarfod diwethaf Panel yr Heddlu a Throseddu, darparodd Pennaeth Plismona'r Ffyrdd ddiweddariad cynhwysfawr ar bob mater mewn perthynas â'r terfyn cyflymder 20mya.

Nododd y Prif Gwnstabl Blakeman bod disgwyl iddi gyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a heddlu'r gogledd i drafod hyn, ond roedd am bwysleisio bod GanBwyll wedi ymdopi eleni oherwydd rhywfaint o gyllid ychwanegol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ansicr yn parhau gyda GanBwyll yn cael setliad arian gwastad sydd wedi creu pwysau cynyddol a hyd nes yr ymdrinnir â hynny, bydd yr heddluoedd mewn sefyllfa anodd. Mae argymhellion amrywiol yn y papur cyllido sydd yn y broses o gael ei ddrafftio. Esboniodd ei bod hi'n gobeithio gweithio trwy'r manylion gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Heddlu'r Gogledd gan fod y Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd yn eistedd o fewn Llywodraeth Cymru a phlismona sy'n gyfrifol am orfodi.

### 7b.) Diweddariad Byr ar y Papur Cyllido

Dywedodd Harri Evans-Mason fod y papur cyllido'n cael ei ddatblygu trwy lywodraethiant mewnol Cydweithio'r Heddlu. Er bod nifer o gyfleoedd ar gael i wella'r bartneriaeth, mae mewn sefyllfa amhosibl ac mae'r gallu i ddod yn ariannol sefydlog yn heriol, rhywbeth a gafodd ei nodi hefyd yn adolygiad Mott Macdonald a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Nododd fod plismona hefyd wedi dechrau gweithgarwch adolygu mewnol i gryfhau'r dewisiadau a fydd yn cael eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru. Esboniodd mai camau nesaf plismona yw gorffen drafftio'r papur a'i uwchgyfeirio drwy lywodraethiant yr heddlu yn ystod yr wythnosau nesaf yn barod ar gyfer cyfarfod y Prif Gwnstabl Blakeman â Ken Skates AS.

Pwysleisiodd fod plismona yn croesawu'r cymorth a gawsant gan Swyddogion Trafnidiaeth a Diogelwch ar y Ffyrdd, yn enwedig dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu Cynllun Diogelwch ar y Ffyrdd Strategol newydd ond mae buddsoddiad yn allweddol wrth allu darparu rhai o'r amcanion a nodwyd yn y cynllun.

### 7c.) Cyflwyniad 'Pŵer y Bartneriaeth' ar Ymgyrch Ugain/Atal

Esboniodd y Prif Arolygydd Gareth Morgan fod Llywodraeth Cymru a Phlismona wedi cytuno ar bwysigrwydd dull y 3E sef Ymgysylltu (Engage), Addysgu (Educate) a Gorfodi (Enforce) pan fydd angen, er mwyn helpu i roi Ymgyrch Ugain ar waith. Cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru, pedwar Heddlu a thri

Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru yw hwn. Yr amcan oedd cefnogi newid ymddygiadol er mwyn gwneud ffyrdd yng Nghymru yn fwy diogel.

Hyd yma, mae'r cyflymder ychydig o dan 398,000 o gerbydau wedi'u monitro, o'r rheiny, canfuwyd bod 95% o fewn y trothwy gorfodi ac o'r rheiny nad oeddent o fewn y trothwy gorfodi, darparwyd 17,380 o sesiynau ymgysylltu wrth ochr y ffordd.

Nododd y bydd Ymgyrch Ugain yn dod yn Ymgyrch Atal yn yr Haf 2025, gan gwmpasu meysydd ychwanegol y 5 Angheuol, sy'n adnodd hollbwysig wrth wella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn GanBwyll. Pwysleisiwyd y ffaith bod y bartneriaeth ar waith i wneud ffyrdd yn fwy diogel, o gymharu â chyhoeddi dirwyon i aelodau'r cyhoedd. Bydd swyddogion yn cael eu dosbarthu mewn lleoliadau penodol lle mae plismona yn edrych i atal gwrthdrawiadau lle caiff pobl eu Lladd neu lle y cânt Anafiadau Difrifol drwy ymgysylltu ac addysgu mewn tri maes allweddol; gwregysau diogelwch, cyflymder mewn ystod ehangach o derfynau a'r defnydd a'r gosodiad cywir o seddau diogelwch plant.

Y Prif Arolygydd Esboniodd Morgan y bydd rhywun yn ymgysylltu â phartner academaidd i sicrhau gwerthusiad annibynnol o'r ymgyrch a'r buddiannau i Ddiogelwch y Ffyrdd yng Nghymru.

**7.1.** Diolchodd y Cadeirydd am y diweddariad a diolchodd i'r heddlu am eu gwaith anhygoel. Cytunodd bod yr adolygiad yn bwysig a chydnabu bod disgwyl i'r papur ariannol gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2025.

### 7d.) Y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd

Esboniodd Mike Connolly y bydd y bil yn gwneud darpariaethau i'r dioddefwyr a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â Chyfiawnder Troseddol. Cafodd LCM ei osod gerbron y Senedd ar 20 Mai 2025; mae'r bil yn cwmpasu meysydd a gedwir yn ôl yn bennaf, ac eithrio un cymal a oedd yn destun proses LCM. Soniodd y bu Swyddogion y Swyddfa Gartref yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â'r Isadran Diogelwch Cymunedol yn Llywodraeth Cymru a bydd yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref wrth i'r bil fynd rhagddo a bydd yn darparu diweddariadau pellach i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru fel y bo'n ofynnol.

### 7e.) Canllawiau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Diolchodd y Cadeirydd i'r bwrdd am gefnogi'r ffordd y cafodd y canllawiau eu datblygu; mae'n credu y bydd angen LCM yn y Senedd ar y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd a'r Canllawiau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Esboniodd Mike Connolly fod Llywodraeth y DU wedi gwneud Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG) yn un o gydrannau allweddol y Genhadaeth Strydoedd Mwy Diogel, ac un o'i nodau yw creu cymunedau mwy diogel lle y gall unigolion fyw, gweithio a ffynnu ynddynt, heb ofni y bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio ar eu bywydau pob dydd. Dyluniwyd Canllawiau Cynllun Gweithredu YG gan y Swyddfa Gartref er mwyn cefnogi heddluoedd i ddatblygu a gweithredu'r Cynlluniau Gweithredu YG lleol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wrth oruchwylio'n effeithiol a chraffu i sicrhau ymateb cyson a chadarn ym mhob rhan o Gymru a Lloegr. Esboniodd fod yr Isadran Diogelwch Cymunedol wedi gweithio'n agos â'r PLU i ddarparu mewnbwn i ddatblygu Canllawiau YG i sicrhau ei fod yn adlewyrchu safbwynt Cymru.

### 8. Cofnodion y cyfarfod blaenorol (02/04/25)

Roedd pawb yn fodlon ar gywirdeb cofnodion 2 Ebrill 2025. Cadarnhawyd y canlynol:

- Bod Cam Gweithredu 1 wedi'i gwblhau
- Bod Cam Gweithredu 2 yn parhau gyda Sasha Yilmaz yn symud hyn yn ei flaen
- Bod Cam Gweithredu 3 yn parhau gan fod Paul wedi dweud bod darn penodol o waith wedi'i gomisiynu gan Brif Gwnstabliaid Cymru er mwyn deall natur a graddau'r tensiynau ledled Cymru a fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf WCOG.

## 9. Unrhyw Fater Arall

Dywedodd y Cadeirydd iddi gyfarfod â'r Comisiynydd Llywelyn mewn perthynas â chwestiwn a godwyd yn y Senedd mewn perthynas â Noeth-Chwilio Plant; rhoddwyd sicrwydd iddi mai fel dewis olaf y byddai Noeth-Chwilio'n cael ei ddefnyddio ac mae'n deall bod y term Noeth-Chwilio'n cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau, ond nid yw'n gwahaniaethu mewn rhywun y gofynnir iddo ddiosg eitem o ddillad fel siaced, yn hytrach na chwiliad personol. O ganlyniad, mae nodi manylion yn gywir yn hollbwysig i ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr o sut caiff chwiliadau eu defnyddio a pha gamau all fod yn angenrheidiol i wella ymarfer. Nododd y Cadeirydd fod y gydberthynas rhwng Plismona a Llywodraeth Cymru yn bwysig ac ychwanegodd ei bod hi'n gallu ymateb yn gyflym i gwestiynau fel hyn, gan egluro'r sefyllfa.

Clôdd y Cadeirydd y cyfarfod gan ddiolch i'r adran blismona ac i'r timau am eu dewrder; mynychodd Gwobrau Cenedlaethol Dewrder yr Heddlu yr wythnos flaenorol a soniodd pa mor arbennig oedd clywed am ddewrder yr holl enwebeion ledled Cymru a Lloegr, gan ychwanegu yr hoffai gael y neges honno'n ôl i'r holl bobl sy'n gweithio mewn heddluoedd. Diolchodd y Prif Gwnstabl Vaughan i'r Cadeirydd am fynychu'r Gwobrau Dewrder.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**
Dydd Iau 23 Hydref 2025 - 10:00 i 12:00